


# Y Gell Cyngor Technegol

## Crynodeb o'r cyngor

19 Mehefin 2020







OGL © Crown copyright 2020 WG40655

# Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

19 Mehefin 2020


## Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae Rt wedi bod yn is na 1 am o leiaf chwe wythnos sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion a'r rhai sydd wedi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Os bydd $R_t$ yn aros yn is na 1 yna bydd achosion yn parhau i ddisgyn.
- Yn gyffredinol, mae cyfradd nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned yng Nghymru yn parhau i ddisgyn, ac mae capasiti sylweddol ar gael mewn ysbytai ledled Cymru. Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod dau achos lleol yn y Gogledd.

## Rhif atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r Rhif atgynhyrchu $R_t$ ar gyfer Cymru o SPI-M yw rhwng 0.7 a 1.0 gydag amcangyfrif canolog o 0.8.
- Mae'r amcangyfrif hwn a'r amcangyfrif a gynhyrchwyd ar gyfer 09/06/20 yn seiliedig ar wahanol setiau o fodelau, felly nid oes modd cymharu'r ddau yn uniongyrchol.
- Wrth i nifer yr achosion newydd ddisgyn i lefelau isel, mae $R_t$ yn mynd yn sensitif iawn i newidiadau dyddiol mewn achosion a ganfyddir trwy brofi ac olrhain, gan beri i $R_t$ wamalu'n wythnosol a thueddu tuag at $R_t = 1$.
- Os bydd nifer yr achosion o heintiau yn parhau i ostwng, daw mesurau eraill megis nifer yr achosion newydd ac adroddiadau Ymarferwyr Cyffredinol yn bwysicach na defnyddio $R_t$ fel y prif ddangosydd.
- Mae Ffigur 1 isod yn dangos yr amcangyfrif dros amser o'r rhif atgynhyrchu effeithiol ym mhob rhanbarth. Dangosir amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata sydd eisoes yn bodoli hyd at 8 Mehefin 2020. O'r dyddiad hwn ymlaen y dangosir rhagolygon, sydd i'w hystyried fel data dangosol yn unig. Mae'r llinell doredig lorweddol yn dangos y gwerth targed, sef 1, ar gyfer y rhif atgynhyrchu effeithiol sy'n ofynnol i reoli'r haint. Mae'r llinell doredig fertigol yn dangos dyddiad llunio'r adroddiad.


**Ffigur 1: Rhifau atgynhyrchu dros amser yng Nghymru**




## Amcangyfrif Cyfredol o $R_t$

- Nid oes tystiolaeth bod $R_t$ yn wahanol iawn yng ngwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.
- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o $R_t$.
- Rydym yn defnyddio $R_t$ i amcangyfrif y gyfradd atgynhyrchu yn y gymuned. Mae lleoliadau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol sydd, yn ein barn ni, yn epidemigau ar wahân, megis ysbytai a chartrefi gofal. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r tueddiadau neu'r trosglwyddiadau hyn drwy amcangyfrif $R_t$ ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai.
- Argymhellir bod y sefyllfa mewn lleoliadau llai yn cael ei monitro gan ddefnyddio nifer yr achosion a marwolaethau, a lle bo modd, ymchwiliad epidemiolegol i sut y mae'r lleoliadau lluosog yn rhyngweithio.
- Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o'r gwahanol fodelau yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer $R_t$ yng Nghymru i'w gweld yn y ffigurau isod. Mae'r canlyniadau'n cael eu gwneud yn ddienw er mwyn osgoi rhoi blaenoriaeth i un model penodol. Dangosir canlyniadau gan ddefnyddio'r model cyfunol gan ddefnyddio pwysoliad cyfartal hefyd mewn du ynghyd â chyfyngau hyder o 90%.

**Ffigur 2. Amcangyfrifon cyfredol o $R_t$ yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder o 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal**





- Mae *cyfradd twf* afiechyd yn ffordd o ddangos pa mor gyflym y mae nifer y rhai sydd wedi'u heintio yn newid o ddydd i ddydd[1]. Mae 4 model i'w cael ar hyn o bryd sy'n amcangyfrif y cyfraddau twf yng Nghymru. Caiff canlyniadau'r modelau hyn hefyd eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal er mwyn darparu'r amcangyfrif canolog cyffredinol o'r gyfradd twf. Mae Ffigur 3 yn dangos yr amcangyfrifon o'r cyfraddau twf diweddaraf yng Nghymru, gan gynnwys y model cyfunol.

- Mae'r gyfradd twf gyfredol yn -0.02 (gyda chyfyngau hyder o 90% o 0.06 i 0.02) sy'n golygu yr amcangyfrifir ar hyn o bryd fod cwymp o tua 2% yn nifer y rhai sydd wedi'u heintio bob dydd.

[1] https://plus.maths.org/content/epidemic-growth-rate


**Ffigur 3: Amcangyfrifon cyfredol o'r gyfradd twf yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder o 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal**




**Glynu at y mesurau presennol**

- Mae llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Yn dilyn rhai wythnosau o ostyngiad, mae'r wythnos ddiweddaraf yn debyg i'r cyfnod o ddwy wythnos flaenorol. Mae data ar lefel Prydain Fawr (oddi wrth ONS) yn dangos cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael eu cartref am resymau 'nad ydynt yn hanfodol'.
- Mae dadansoddiad arall (ar lefel y DU) yn dangos bod cydymffurfiaeth "lwyr" yn parhau i ostwng ymhlith pobl o bob oed, gyda'r lefelau isaf ymhlith pobl ifanc, pobl ag incwm aelwyd uwch, pobl yn Lloegr, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol.
- Fodd bynnag, mae cydymffurfiaeth â "mwyafrif" y canllawiau yn parhau'n uchel ac yn gymharol sefydlog ymhlith oedolion dros 30 oed, gyda mwy na 90% o'r oedolion hyn yn adrodd eu bod yn dal i ddilyn canllawiau i raddau helaeth. Dim ond ymhlith oedolion o dan 30 oed y mae cydymffurfiaeth â "mwyafrif" y canllawiau yn parhau i syrthio, gyda'r ffigurau oddeutu 80% yn awr.
- Mae Ffigur 4 yn dangos data a gasglwyd ar-lein fel rhan o arolwg o lawer o wledydd ar blatfform Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran. I gael rhagor o wybodaeth am farn y cyhoedd ar COVID-19, ewch i: https://llyw.cymru/arolwg-o-farn-y-cyhoedd-ar-y-coronafeirws-covid-19

***Ffigur 4: Data Ymateb yr Arolwg o Gydymffurfiaeth yng Nghymru***




- Ers canol mis Ebrill mae teithio wedi bod yn cynyddu'n raddol, ond ychydig o newid a welwyd yn gyffredinol dros y cyfnod o ddwy wythnos ddiwethaf. Yng nghanol mis Ebrill roedd teithio gan ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen. Roedd hyn wedi codi i ychydig dros 30% erbyn 2 Mehefin ac mae wedi aros tua’r un lefel ers hynny. Yn yr un modd mae data Apple yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu ychydig yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn dilyn cwymp yr wythnos flaenorol. Mae data symudedd Google hefyd yn dangos sefydlogrwydd dros yr wythnos ddiwethaf yn y rhan fwyaf o gategorïau, ond mae symudedd mewn gorsafoedd trafnidiaeth wedi syrthio tra bo’n parhau i gynyddu mewn gweithleoedd.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau teithio yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Er hynny, rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin, gwelwyd mwy o gynnydd o ran teithio yn Lloegr. Yn ystod yr wythnos ddiwethaf mae cynnydd ychydig mwy wedi bod o ran teithio yn Lloegr nag yng Nghymru (yr wythnos flaenorol roedd gostyngiad ychydig mwy o ran teithio yn Lloegr nag yng Nghymru).
- Mae’r ffigur isod yn dangos y newid o ran teithio yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae’r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o’r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020, yw’r llinell sylfaen. Mae’r patrwm hwn yn debyg ar y cyfan i batrwm y DU gyfan.

**Amser haneru**


- Mae nifer y derbyniadau newydd i’r ysbyty oherwydd COVID-19 yng Nghymru wedi pasio’r brig cyntaf ac amcangyfrifir ei fod yn gostwng. Felly, yn hytrach na thrafod

'amseroedd dyblu', rydym yn awr yn trafod 'amseroedd haneru' – yr amser y mae'n ei gymryd i nifer yr achosion haneru.

- O 22 Mawrth i 10 Ebrill, cynyddodd yr amseroedd dyblu a amcangyfrifwyd o 7.6 i 92.1 diwrnod. Seiliwyd hyn ar dderbyniadau i'r ysbyty yn sgil heintiau a gafwyd yn y gymuned (gan eithrio achosion posibl o heintiau a gafwyd yn yr ysbyty).

- Ar 17 Mehefin, mae'r amcangyfrifon o'r amser haneru (yn seiliedig ar dderbyniadau i'r ysbyty o 1 Mehefin i 14 Mehefin) yn awgrymu mai tua 32.8 diwrnod yw'r amser a gymerir i nifer yr achosion newydd haneru, gyda chyfwng hyder o 95% o 12.3 i -49.5 diwrnod.

**Ffigur 4: Amser haneru a amcangyfrifwyd ar gyfer derbyniadau newydd i'r ysbyty am achosion o COVID-19 a gafwyd yn y gymuned[2]**




[2] Cymerir mai'r rheini lle mae'r amser rhwng derbyn unigolion i'r ysbyty a'r dyddiad samplo COVID-19 yn llai na phedwar diwrnod yw achosion o heintiau a gafwyd yn y gymuned. Mae'r is-set hon o ddata wedi'i defnyddio i amcangyfrif newidiadau mewn trosglwyddiadau yn y gymuned a bydd nifer y diagnosis newydd o COVID-19 ymhlith cleifion yn yr ysbyty yn uwch na'r hyn a gyflwynir yn y siart hon. Mae amcangyfrifon o amseroedd dyblu/haneru yn sensitif i'r cyfnod amser a ddewisir. At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae gwerth 14 diwrnod o ddata wedi'i ddefnyddio. Gwnaed amcangyfrifon o amser haneru ar 17 Mehefin 2020 ac maent wedi'u seilio ar dderbyniadau i'r ysbyty o 1 Mehefin i 14 Mehefin. Dangosir cyfyngau hyder o 95% drwy linellau glas tywyll toredig yn Ffigur 4. Mae'r data hyn yn eithrio cleifion lle mae'r dyddiad derbyn i'r ysbyty yn fwy na 14 diwrnod ar ôl dyddiad y sbesimen. Cymerir nad yw'r derbyniadau hyn yn ymwneud â COVID-19 oherwydd ei bod yn debygol y bydd y rhan fwyaf o bobl naill ai'n gwella o COVID-19 neu'n gwaethygu, gan olygu bod angen iddynt gael triniaeth yn yr ysbyty cyn pen 14 diwrnod. Ar ôl 14 diwrnod, mae canlyniad y prawf COVID-19 yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r derbyniad i'r ysbyty.
*Ffynhonnell: System Rheoli Achosion Ysbyty Cymru Gyfan [2], Iechyd Cyhoeddus Cymru – y sefyllfa ar 17 Mehefin 2020*

## Ymchwil

- Mae canlyniadau'r treial 'RECOVERY' o Hydrocsiclorocwin a Decsamethason yn cadarnhau pwysigrwydd canolog yr hap-dreialon a gynhelir yng Nghymru.
- Mae 2,856 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynnydd o 362 yn y saith niwrnod diwethaf.

## Dangosfwrdd Data y GIG


### Adroddiad Statws y GIG

- Data Iechyd Cyhoeddus Cymru a ddiweddarwyd ar 21/06/2020
- Data ysbytai a ddiweddarwyd ar 22/06/2020

Unedau Gofal Dwys L3

- Mae'r defnydd gwelyau cyffredinol yn 47% (i fyny o 41.8% yn yr adroddiad blaenorol)
- O'r cyfanswm o 131 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys L3 yng Nghymru:
    - mae 8% wedi'u cadarnhau fel cleifion COVID (i lawr o 17% yn yr adroddiad blaenorol);
    - mae 8% yn gleifion COVID a amheuir (i fyny o 4%);
    - mae 79% yn gleifion nad ydynt yn gleifion COVID (i fyny o 77%).
- O'r byrddau iechyd ag Unedau Gofal Dwys L3:
    - Mae 63% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cael eu defnyddio;
    - Mae 52% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cael eu defnyddio;
    - Mae llai na 50% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael eu defnyddio.

**Ffigur 6: Cleifion sydd wedi profi'n bositif am COVID-19 sydd mewn Gwelyau Unedau Gofal Dwys Lefel 3 yng Nghymru**




**Crynodeb Cadw Gwyliadwraeth Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Tueddiadau

- Mae nifer y rheini sy'n cysylltu â gwasanaeth 111 y GIG a nifer y galwadau i Galw Iechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID yn isel ac yn sefydlog.
- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID o bosibl ym mis Ebrill ond maent wedi syrthio ac yn sefydlog erbyn hyn.
- Bu cwymp yng nghyfradd y profion positif o bron i 50% i lai na 2%, ac mae wedi bod yn sefydlog dros yr wythnosau diwethaf; mae'r gyfradd yn uwch mewn personau a brofir yn yr ysbyty.

Meysydd o weithgarwch diweddar

- Canolbwyntiwyd yn bennaf ar y Gogledd yn ddiweddar. Mae'r canolrif uchaf o ran nifer yr achosion fesul ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.
- Ymhlith gweithwyr allweddol mewn ysbytai ac mewn cartrefi gofal, staff y cartrefi gofal yn ogystal â phreswylwyr, yn bennaf y bu'r achosion a gafodd eu cadarnhau yn fwyaf diweddar.
- Mae rhwng 1 a 5 o achosion newydd yr wythnos o hyd, mewn cartrefi preswyl yn bennaf.

- Mae 58 o achosion (adeg llunio'r adroddiad) mewn safle prosesu bwyd yn Ynys Môn, a bwriedir sgrinio'r staff. Daeth yr achosion hyn i'r amlwg yn ystod y 10 niwrnod diwethaf yn bennaf. Mae digwyddiad ar wahân wedi bod mewn safle arall yn y Gogledd hefyd, gyda throsglwyddiadau pellach yn debygol y tu allan i'r safle hwnnw.

<u>Marwolaethau</u>

- Mae nifer y marwolaethau, beth bynnag y bo'r achos, wedi dychwelyd i lefelau tymhorol sylfaenol fwy neu lai.
- Ymhlith marwolaethau yn sgil COVID-19 yn y rheini o dan 50 oed (ac mae'r sefyllfa yn debyg yn y rheini o dan 60 oed), asthma, gordewdra afiachus a diabetes math II oedd y cyflyrau iechyd a fodolai eisoes yr adroddwyd amdanynt yn fwyaf cyffredin (29-43%).

**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

